


# Y Gell Cyngor Technegol

# Crynodeb o'r cyngor

5 Gorffennaf 2020







© Crown copyright 2020 WG40655

# Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb
**5 Gorffennaf 2020**

## Crynodeb o'r Prif Bwyntiau


- Amcangyfrifir bod heintiau COVID-19 yng Nghymru yn lleihau tua 2% y dydd ar hyn o bryd.
- Mae hyder bod y rhif R yng Nghymru yn is na 1 a'i fod wedi bod yn is na 1 ers sawl wythnos. Ond mae nifer isel yr achosion a chlystyrau o achosion yn golygu na chredir bod y rhif R ar gyfer Cymru bellach yn amcangyfrif y gellir dibynnu arno fel mesur cyffredinol o'r epidemig. Mewn adroddiadau yn y dyfodol, bydd $R_t$ yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r gyfradd dwf ac amcangyfrif o'r achosion o'r feirws i roi darlun llawnach o statws y feirws yng Nghymru.

## Cyfradd twf

- Mae chwe model i'w cael ar hyn o bryd sy'n amcangyfrif y cyfraddau twf yng Nghymru. Caiff canlyniadau'r modelau hyn eu cyfuno gan ddefnyddio pwysoliadau cyfartal er mwyn darparu'r amcangyfrif canolog cyffredinol o'r gyfradd twf. Mae ffigur 1 yn dangos yr amcangyfrifon o'r cyfraddau twf diweddaraf ar gyfer Cymru, gan gynnwys y model cyfun. Mae'r gyfradd twf presennol yn -0.02 (cyfyngau hyder 90% o -0.07 i 0.03) sy'n golygu yr amcangyfrifir ar hyn o bryd bod heintiau yn lleihau tua 2% y dydd.

- Mae canlyniadau yn ddienw i osgoi gosod cynsail ar gyfer un model dros un arall. Dangosir cyfyngau hyder (90%) hefyd.

**Ffigur 1: Yr amcangyfrifon cyfredol ar gyfer cyfradd twf yng Nghymru – gyda chyfyngiadau hyder 90%, a'r model cyfun yn seiliedig ar bwysau cyfartal**




**Allwedd – Math o fodel**




### Rhif atgynhyrchu

- Yr amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu $R_t$ ar gyfer Cymru o SPI-M yw rhwng 0.7 a 0.9 gydag amcangyfrif canolog o 0.8.
- Mae'r amcangyfrif hwn a'r amcangyfrif a gynhyrchwyd ar gyfer 23/06/20 yn seiliedig ar wahanol setiau o fodelau, felly nid oes modd cymharu'r ddau yn uniongyrchol.
- Mae $R_t$ wedi bod yn is na 1 am o leiaf chwe wythnos sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion a'r rhai sydd wedi gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty. Os bydd $R_t$ yn aros yn is na 1 yna bydd achosion yn parhau i ddisgyn. Os bydd nifer yr achosion o heintiau yn parhau i ostwng, daw mesurau eraill megis nifer yr achosion newydd ac adroddiadau Ymarferwyr Cyffredinol yn bwysicach na defnyddio $R_t$ fel y prif ddangosydd.
- Mae Ffigur 2 isod yn dangos yr amcangyfrif dros amser o'r rhif atgynhyrchu effeithiol yng Nghymru. Dangosir amcangyfrifon sy'n seiliedig ar ddata sydd eisoes yn bodoli hyd at 20 Mehefin 2020. O'r dyddiad hwn ymlaen y dangosir rhagolygon, sydd i'w hystyried fel data dangosol yn unig. Mae'r llinell doredig lorweddol yn dangos y gwerth targed, sef 1, ar gyfer y rhif atgynhyrchu effeithiol sy'n ofynnol i reoli'r haint. Mae'r llinell doredig fertigol yn dangos dyddiad llunio'r adroddiad.

**Ffigur 2: $R_t$ yng Nghymru [1]**




### Amcangyfrif Cyfredol o $R_t$


- Mae tystiolaeth bod amrywiadau bychan mewn $R_t$ rhwng gwahanol wledydd y DU. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer yr Alban, Cymru a

[1] **Ffynhonnell a gwybodaeth bellach**: Amcangyfrifon Cenedlaethol ac Isgenedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig https://epiforecasts.io/covid/posts/national/united-kingdom/

Gogledd Iwerddon yn rhannol oherwydd y niferoedd llai o achosion a marwolaethau o'i gymharu â Lloegr.

- Ni fydd unrhyw newidiadau o ran trosglwyddo a allai fod wedi digwydd yn y ddwy i dair wythnos ddiwethaf yn cael eu hadlewyrchu mewn data clinigol eto, nac ychwaith felly yn yr amcangyfrifon cyfredol o $R_t$.
- Mae tri lleoliad sy'n arbennig o berthnasol i'r sefyllfa bresennol: y gymuned, cartrefi gofal ac ysbytai. Nid yw'r rhain yn annibynnol; gall haint gael ei ledaenu rhwng ysbytai a chartrefi gofal, o'r lleoliadau hyn yn ôl i'r gymuned, ac i'r gwrthwyneb. Ni ellir casglu'r rhain drwy amcangyfrif $R_t$ ar wahân ar gyfer cartrefi gofal ac ysbytai. Mae $R_t$ ond yn ystyried trosglwyddiad i eraill pan fydd y feirws wedi'i gyflwyno mewn poblogaeth benodol.
- Mae SPI-M-O yn argymell bod nad yw'r sefyllfa mewn lleoliadau penodol yn cael ei monitro gan ddefnyddio $R_t$ ond yn hytrach sut y mae nifer yr achosion a marwolaethau ynddynt yn newid, a lle bo modd, ymchwiliad epidemiolegol i sut y mae'r tri epidemig yn rhyngweithio.
- Er mwyn ystyried yr holl dystiolaeth a dulliau mae'r canlyniadau o bob model yn cael eu cyfuno gan ddefnyddio pwysoliad cyfartal i roi amcangyfrif cyffredinol o $R_t$ yng Nghymru. Dangosir hwn mewn du i'r dde o Ffigur 3 isod. Mae'r groes yn nodi ei bod yn annhebygol iawn y gellir dibynnu ar yr amcangyfrifon hyn oherwydd y lefelau isel o haint a'r clystyrau o heintiau yng Nghymru.
- Mae'r canlyniadau yn ddienw er mwyn osgoi rhoi blaenoriaeth i un model penodol dros un arall. Dangosir cyfyngau hyder (90%) hefyd. Yr asesiad o'r dystiolaeth hon o SPI-M yw bod $R_t$ yn debygol o fod yn is na 1 yng Nghymru.

**Ffigur 3: Amcangyfrifon cyfredol o $R_t$ yng Nghymru – gyda chyfyngau hyder o 90%, ynghyd â'r model cyfunol yn seiliedig ar bwysoliadau cyfartal**




**Allwedd – math o fodel**





**Amser haneru**

- Ers 19/05/2020 mae'r nifer o bobl sydd wedi cael eu derbyn i'r ysbyty ar ôl dal COVID-19 yn y gymuned wedi aros yn isel ac yn sefydlog, gan effeithio ar ddilysrwydd y model, ac felly mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u hoedi.

**Glynu at y mesurau presennol a symudedd**


- Mae'r data diweddaraf yn dangos bod llawer o bobl yng Nghymru yn parhau i ddilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Mae cydymffurfiaeth yn gymharol sefydlog o hyd yn dilyn lleihad ar ddiwedd mis Mai/dechrau mis Mehefin. Mae data ar lefel Prydain Fawr (oddi wrth ONS) yn dangos bod canran debyg o bobl i'r wythnos ddiwethaf wedi gadael eu cartref am resymau 'nad ydynt yn hanfodol'.
- Mae Ffigur 4 isod yn dangos data a gasglwyd ar-lein fel rhan o arolwg o lawer o wledydd. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys tua 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru 16-74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran. I gael rhagor o wybodaeth am farn y cyhoedd ar COVID-19, ewch i: https://gov.wales/surveypublic-views-coronavirus-covid-19.

**Ffigur 4: Cydymffurfiaeth gyda chanllawiau cadw pellter cymdeithasol yng Nghymru**



- Mae canlyniadau diweddaraf yr Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws yn dangos canlyniadau tebyg i'r wythnos flaenorol. Mae ychydig dros hanner (55% o bobl) wedi dod i gysylltiad agos (llai nag un metr) gyda rhywun o gartref arall yn yr wythnos ddiwethaf. Nododd 27% bod rhywun o'r tu allan i'w cartref wedi bod i'w tŷ yn yr wythnos ddiwethaf a nododd 24% eu bod wedi mynd i un neu fwy o dai eraill yn yr wythnos ddiwethaf.
- Rhwng canol mis Ebrill a dechrau mis Mehefin mae teithio wedi cynyddu'n raddol. Ond mae'r newidiadau yn gyffredinol wedi bod yn llawer llai ers dechrau mis Mehefin. Gwelwyd lleihad yn yr wythnos ddiwethaf mewn rhai achosion. Yng nghanol mis Ebrill roedd teithio gan ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen. Roedd hyn wedi codi i 21% erbyn 26 Mehefin ond mae wedi lleihau ychydig ers hynny. Ar ôl lleihad ar ddechrau mis Mehefin, mae data Apple yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi parhau i gynyddu tan 26 Mehefin ond wedi bod yn sefydlog ers hynny. Mae data symudedd Google yn dangos peth cynnydd ar gyfer manwerthu, hamdden, archfarchnadoedd a fferyllfeydd yn yr wythnos ddiwethaf. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn dangos lleihad bychan yn y diwrnodau diwethaf yn dilyn cynnydd bychan yn yr wythnos flaenorol. Nid oes fawr o newid wedi bod ar gyfer gweithleoedd.
- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud roedd patrymau teithio yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Er hynny, ers canol mis Mai gwelwyd mwy o gynnydd o ran teithio yn Lloegr nag yng Nghymru. Yr un patrwm oedd yng Nghymru a Lloegr yn yr wythnos ddiwethaf.
- Mae ffigur 5 isod yn dangos y newid o ran teithio yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr-6 Chwefror 2020, yw'r llinell sylfaen. Mae'r patrwm hwn yn debyg ar y cyfan i batrwm y DU gyfan ond yn yr wythnos ddiwethaf bu cynnydd mwy yn y DU ar gyfer gorsafoedd trafnidiaeth, parciau a manwerthu a hamdden na Chymru.

**Ffigur 5: Newidiadau mewn symudedd yng Nghymru**




## Ymchwil

- Mae 3989 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd brys COVID-19 ar hyn o bryd, sy'n 818 o gynnydd yn y saith diwrnod diwethaf.

## Hylendid dwylo i gyfyngu ar drosglwyddo SARS-CoV-2

- Mae ymchwil bellach wedi darparu rhagor o dystiolaeth y gall ymyriadau hylendid dwylo leihau risg heintiau anadlol.
- Amcangyfrifir bod pob digwyddiad golchi dwylo ychwanegol (neu ddigwyddiad hylendid dwylo tebyg) y dydd yn lleihau'r tebygolrwydd trosglwyddo dyddiol o oddeutu 3% (cyfwng credadwy o 80% (-1%, 7%)).
- Y lleiaf o amser y mae'r feirws yn goroesi ar ddwylo, y lleiaf effeithiol fydd cynyddu amlder hylendid dwylo.
- Mae golchi dwylo yn sgil digwyddiad (ee o fewn 1 munud ar ôl cyffwrdd arwyneb sydd o bosibl wedi'i halogi) yn debygol o fod yn fwy effeithiol na golchi dwylo ar adegau penodol, o ran lleihau'r tebygolrwydd o heintio.

- Mae pwysigrwydd golchi dwylo yn sgil digwyddiad yn awgrymu bod angen cynyddu argaeledd cyfleusterau golchi/diheintio dwylo (a'r defnydd ohonynt) mewn mannau cyhoeddus, siopau, trafnidiaeth gyhoeddus a gweithleoedd i alluogi pobl i ddiheintio eu dwylo'n gyflym ar ôl cyffwrdd arwyneb sydd o bosibl wedi'i halogi.

- Mae effeithiolrwydd hylendid dwylo yn cynyddu pan fydd yn cael ei gyfuno â chamau eraill, megis masgiau wyneb. Felly, cyfuniad o gamau sydd fwyaf tebygol o fod yn effeithiol.

**Defnyddio genomeg SARS-CoV-2 i ddeall trosglwyddiadau**

- Mae epidemig COVID-19 yn y DU yn rhan annatod o epidemig ledled Ewrop. Mae dwy astudiaeth ynghylch genomeg feirysol yn y mis diwethaf wedi disgrifio cyflwyniad SARS-CoV-2 i'r DU a sefydliad llinachau trosglwyddo. Mae epidemig y DU yn cynnwys nifer mawr o achosion wedi'u mewnforio oherwydd teithio rhyngwladol i'r DU. Yn ôl amcangyfrifon un astudiaeth, mae 1356 o linachau trosglwyddo wedi'u cyflwyno'n annibynnol i'r DU.

- Digwyddodd y mwyafrif o'r cyflwyniadau yn ystod mis Mawrth 2020, gan gyrraedd penllanw yng nghanol y mis. Amcangyfrifir y daeth ≈34% o linachau trosglwyddo sydd wedi'u canfod i'r DU drwy deithiau'n cyrraedd o Sbaen, ≈29% o Ffrainc, ≈14% o'r Eidal a ≈23% o wledydd eraill.

- Mae dadansoddi genomeg feirysol yn parhau i fod yn ddull pwysig sy'n helpu i ddeall y rhwydweithiau trosglwyddo a dylid parhau i'w gefnogi er mwyn helpu i ddeall digwyddiadau trosglwyddo mewn ysbytai, cartrefi gofal a'r gymuned.

**Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

- Mae nifer y bobl sy'n cysylltu â gwasanaeth 111 y GIG a nifer y galwadau i Galw Iechyd Cymru ar gyfer symptomau sy'n ymwneud â COVID-19 yn isel ac yn sefydlog.
- Gwelwyd brig yn nifer y galwadau am ambiwlans am resymau a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19 ym mis Ebrill ond maent wedi syrthio ac yn sefydlog erbyn hyn.
- Yn labordai GIG Cymru, mae nifer y canlyniadau positif i brofion COVID-19 wedi lleihau o bron i 50% i 1.8% ar 2 Gorffennaf, ac mae wedi bod yn sefydlog dros yr wythnosau diwethaf.
- Mae nifer y canlyniadau positif ar gyfer pobl yn yr ysbyty wedi lleihau ond maent wedi cynyddu ychydig ar gyfer pobl a brofwyd o leoliadau eraill. Mae hyn yn rhannol oherwydd cynnydd mewn profion sy'n gysylltiedig â nifer bach o achosion lleol sy'n cael eu harchwilio ar hyn o bryd.

- Mae'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ac i'r Uned Gofal Dwys yn parhau i syrthio yn gyffredinol.
- Canolbwyntiwyd yn bennaf ar ardaloedd Ynys Môn, Wrecsam a Merthyr Tudful lle mae achosion wedi bod mewn ffatrïoedd prosesu bwyd ac mae gwaith sgrinio wedi'i wneud.
- Mae'r canolrif uchaf o ran nifer yr achosion fesul ardal, a'r ystod mwyaf o ran achosion, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd.
- Mae rhwng 1 a 5 o achosion newydd bob wythnos, a'r rheini mewn cartrefi gofal yn bennaf.
- Ymhlith gweithwyr allweddol mewn ysbytai ac mewn cartrefi gofal, a phreswylwyr cartrefi gofal yn bennaf y bu'r achosion mwyaf diweddar.


**Dangosfwrdd Data'r GIG**

- Diweddarwyd data Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 30/06/2020
- Diweddarwyd data ysbytai ar 01/07/2020

<u>Unedau Gofal Dwys lefel 3</u>


- O blith y cyfanswm o 130 o gleifion mewn Unedau Gofal Dwys lefel 3 yng Nghymru (sydd wedi gostwng o 134 ers yr adroddiad blaenorol):
  - mae 8% wedi'u cadarnhau'n achosion o COVID-19 (sydd wedi gostwng o 10% ers yr adroddiad blaenorol);
  - mae 6% yn achosion o COVID-19 a amheuir (sydd wedi gostwng o 7%);
  - mae 83% yn achosion heblaw am COVID-19 (sydd wedi cynyddu o 80%).
- O blith y byrddau iechyd sydd ag Unedau Gofal Dwys lefel 3:
  - 70% yw cyfradd defnydd gwelyau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe;
  - mae cyfradd defnydd gwelyau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o dan 50%.

Daily L3 ICU Confirmed COVID19 Patients





## 7-day Averages


Daily COV+/SUS Hospital Admissions




Daily COV+/SUS Hospital Discharges




Daily COV+/SUS L3 ICU Admissions



**Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)**

- Os yw'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi Tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws yn y gwahanol gyngor a roddir.

